Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Llywodraeth yr Alban
Llywodraeth Cymru

Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981
Gorchymyn Twbercwlosis mewn Anifeiliaid (Lloegr) 2021
Gorchymyn Twbercwlosis (Yr Alban) 2023
Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd)
Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2011 (fel y'i diwygiwyd)
Gorchymyn Twbercwlosis mewn Anifeiliaid Penodedig (Yr Alban) 2015
Gorchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) (Lloegr) 2002
Gorchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) (Yr Alban) 2003
Gorchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) (Cymru) 2003

# Hysbysiad Gwahardd Symud Anifeiliaid Penodedig

I:

Rhif Buches y Daliad

**Cyfyngu ar Symud Anifeiliaid a nodir isod i neu oddi ar safle lle yr amheuir Twbercolosis**

Yn unol ag Erthyglau 12 a 14 o Orchymyn Twbercwlosis mewn Anifeiliaid (Lloegr) 2021, Erthygl 19 o Orchymyn Twbercwlosis (Yr Alban) 2023, Erthygl 20 o Orchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd), Erthygl 12 o Orchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2011 (fel y'i diwygiwyd), Erthygl 12 o Orchymyn Twbercwlosis mewn Anifeiliaid Penodedig (Yr Alban) 2015, Erthygl 4 o Orchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) (Lloegr) 2002, Erthygl 4 o Orchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) (Yr Alban) 2003 ac Erthygl 4 o Orchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) (Cymru) 2003

Yr wyf i, fel Arolygydd Milfeddygol yr Ysgrifennydd Gwladol/Gweinidogion yr Alban/Gweinidogion Cymru* yn credu'n rhesymol fod anifail neu anifeiliaid a gedwir ar eich safle wedi ei/eu heintio, neu y gall fod/gallant fod wedi ei/eu heintio, â thwbercwlosis ac felly rwyf drwy hyn yn eich hysbysu fel deiliad y safle canlynol:

na chewch symud unrhyw anifeiliaid a nodir isod i neu oddi ar y safle

Heblaw:

- Eich bod yn cael trwydded sy'n eich awdurdodi i'w symud, neu
- Mae Arolygydd yn cyflwyno hysbysiad i ddirymu'r Hysbysiad hwn.

Nid yw'r gwaharddiad ar symud a geir yn yr hysbysiad hwn yn berthnasol i anifeiliaid a symudir i fan lladd neu ar gyfer triniaeth filfeddygol mewn argyfwng er mwyn atal poen ddiangen i'r anifail hwnnw. Mewn achosion o'r fath, rhaid rhoi manylion llawn i Arolygydd cyn gynted â phosibl.

Fe'ch hysbysaf hefyd fod yn rhaid cydymffurfio â'r cyfyngiadau neu'r gofynion ychwanegol canlynol er mwyn atal clefyd rhag lledaenu:

**Cadw Anifeiliaid â Thwbercwlosis neu yr Amheuir bod ganddynt Dwbercwlosis ar Wahân**

Yn unol ag Erthyglau 12 a 14 o Orchymyn Twbercwlosis mewn Anifeiliaid (Lloegr) 2021, Erthygl 19 o Orchymyn Twbercwlosis (Yr Alban) 2023, Erthygl 20 o Orchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd) ac Erthygl 14 o Orchymyn Twbercwlosis 2011 (Cymru) (fel y'i diwygiwyd), Erthygl 12 o Orchymyn Twbercwlosis mewn Anifeiliaid Penodedig (Yr Alban) 2015, Erthygl 4 o Orchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) (Lloegr) 2002, Erthygl 4 o Orchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) (Yr Alban) 2003 ac Erthygl 4 o Orchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) (Cymru) 2003

Yr wyf i, fel arolygydd Milfeddygol Ysgrifennydd Gwladol/Gweinidogion yr Alban/Gweinidogion Cymru* yn credu'n rhesymol fod anifail neu anifeiliaid a gedwir ar eich safle wedi ei/eu heintio, neu y gall fod/gallant fod wedi ei/eu heintio, â thwbercwlosis ac felly rwyf drwy hyn yn eich hysbysu fel deiliad y safle canlynol:

| |
|---|
| |

y caiff yr anifeiliaid canlynol:

| |
|---|
| |

eu cadw ar wahân i dda byw eraill ac o dan reolaeth yn yr ardal ganlynol o'r safle a nodir uchod:

| |
|---|
| |

Bydd yr hysbysiad hwn yn parhau mewn grym nes i'r anifeiliaid a restrir farw, cael eu symud yn uniongyrchol i ladd-dy o dan drwydded neu nes y caiff ei dynnu'n ôl gan hysbysiad pellach ysgrifenedig gan Arolygydd Milfeddygol. Mae methiant i gydymffurfio â darpariaethau'r hysbysiad hwn yn drosedd o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981.

| | | |
|---|---|---|
| Llofnod | <br>*Arolygydd milfeddygol yr Ysgrifennydd Gwladol/Gweinidogion yr Alban/Gweinidogion Cymru* | Cyfeiriad swyddfa APHA |
| Enw mewn PRIFLYTHRENNAU | | |
| Dyddiad | | |

*(*) dilëwch fel y bo'n briodol*

**DIOGELU DATA**
I gael gwybodaeth am y ffordd rydym yn trin data personol ewch i www.gov.uk a chwiliwch am Siarter Gwybodaeth Bersonol yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion.

## Nodyn

### **Amodau Ychwanegol ar gyfer** Ceidwaid Geifr, Camelidau a Cheirw a Gynhwysir yn yr Hysbysiad hwn, a Leolir yng Nghymru

Rhaid i Geidwad geifr, camelidau a cheirw a gynhwysir yn yr Hysbysiad hwn, a leolir yng Nghymru:

(a) trin a storio gwrtaith neu slyri o unrhyw fan a ddefnyddir gan unrhyw anifail o'r fath nad yw'n fuchol yn unol â gofynion yr hysbysiad hwn

(b) peidio â gwasgaru unrhyw wrtaith na slyri o unrhyw fan a ddefnyddir gan unrhyw anifail o'r fath nad yw'n fuchol heblaw yn unol â gofynion yr hysbysiad hwn

(c) peidio â symud gwrtaith, slyri na gwastraff anifail arall o'r safle oni wneir hynny o dan awdurdod trwydded a roddwyd gan Arolygydd

(ch) cymryd y camau hynny a all fod yn rhesymol ymarferol i atal unrhyw anifail nad yw'n fuchol a gedwir ar y safle rhag heintio unrhyw anifail a gedwir ar unrhyw safle cyfagos

(d) trefnu cadw unrhyw anifeiliaid nad ydynt yn fuchol a all gael eu nodi yn yr hysbysiad ar wahân i'r graddau a nodir yn yr hysbysiad

(dd) sicrhau na ddefnyddir unrhyw ran neu rannau o'r safle a nodir yn yr hysbysiad gan unrhyw anifail nad yw'n fuchol ar y safle, neu gan anifail arall neu anifeiliaid eraill a all gael ei/eu nodi yn yr hysbysiad

(e) glanhau a diheintio, gyda diheintydd cymeradwy, unrhyw ran neu rannau o'r eiddo, yn y cyfnod o amser a'r modd a all gael eu nodi yn yr hysbysiad

(f) glanhau a diheintio, gyda diheintydd cymeradwy, unrhyw gyfarpar a ddefnyddir mewn perthynas ag anifail nad yw'n fuchol y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef, yn y cyfnod o amser a'r modd a all gael eu nodi yn yr hysbysiad

(ff) cymryd unrhyw gamau eraill sy'n briodol ym marn yr Arolygydd Milfeddygol.

## Rheoliadau Cynnyrch Llaeth a Hylendid Bwyd

### Diogelu Iechyd y Cyhoedd/Pobl

### Gwerthu Llaeth

Pan fydd buches/praidd/unigolyn yn destun cyfyngiadau symud TB, bydd nifer o reolau ychwanegol o dan Reoliad CE 853/2004, yn nodi rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n tarddu o anifeiliaid, yn gymwys:

1. Rhaid i'r perchennog neu'r sawl â chyfrifoldeb gysylltu â'i brynwr llaeth i sicrhau y caiff yr holl laeth ei drin â gwres cyn iddo gael ei werthu i'w yfed gan bobl.

2. Ni ddylai llaeth gan anifeiliaid unigol sydd wedi cael adwaith positif i'r prawf twbercwlin gael ei yfed gan bobl. Rhaid cadw llaeth o'r anifeiliaid hyn yn ôl ac nid argymhellir ei roi i dda byw eraill. Gellir casglu'r llaeth mewn system slyri, ond mae'n rhaid i unrhyw waith taenu ar y tir a wneir wedyn fod yn unol ag Eithriad Trwydded Rheoli Gwastraff cofrestredig. I gofrestru, cysylltwch â naill ai Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru a Lloegr (neu defnyddiwch Ddull Fferm Gyfan Defra yn Lloegr yn unig) neu Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd (SEPA) yr Alban.

Hefyd, er mwyn diogelu eich iechyd eich hun ac iechyd eich teulu, argymhellir yn gryf na ddylech yfed llaeth heb ei basteureiddio tra bod gan eich buches/praidd glefyd.

Mae APHA yn un o Asiantaethau Gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac mae hefyd yn gweithio ar ran Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a'r Asiantaeth Safonau Bwyd i ddiogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion er budd pobl, yr amgylchedd a'r economi.